WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyflwyno: 14 Rhagfyr 2017

Defnyddio cwmnïau marchnata a chwmnïau cysylltiadau cyhoeddus preifat

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 15 Tachwedd 2017, i ofyn am wybodaeth ynghylch ein defnydd o gwmnïau marchnata a chwmnïau cysylltiadau cyhoeddus preifat.

Er mwyn hwylustod rwyf wedi copïo eich cwestiynau isod a nodi ein hatebion cyfatebol.

1. A yw eich adran/asiantaeth/sefydliad yn defnyddio cwmni preifat ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaethau canlynol:

- Cysylltiadau Cyhoeddus
- Gohebiaeth Cyfryngau Cyhoeddus
- Gohebiaeth Rhanddeiliaid Allanol
- Gohebiaeth Rhanddeiliaid Mewnol

Nac ydi, darperir y gweithgareddau hyn yn fewnol.

2. Os ydi, a wnewch chi gadarnhau:

- Pryd oedd y tro diwethaf i'r contract presennol gael ei osod
- Pryd y daw'r contract presennol i ben
- Pa un a oes dewisiadau yn y contract presennol er mwyn ymestyn ei hyd
- Pryd yr ydych chi'n disgwyl ail-dendro'r contract

Amherthnasol

3. Os nac ydi yw'r ateb i gwestiwn 1 uchod, a ydych chi'n ystyried gosod contract o'r fath yn y dyfodol, ac os felly, a oes gennych chi amserlen fras ar gyfer ymgysylltu â'r farchnad?
Nid ydym ni'n ystyried gwneud hyn.

4. A ydych chi wedi defnyddio cwmni preifat i'ch cynorthwyo ag unrhyw ymgyrchoedd marchnata neu wybodaeth i'r cyhoedd yn y ddwy flynedd ddiwethaf?
5. Os felly, a wnewch chi ddarparu trosolwg cyffredinol byr o'r hyn yr oedd yr ymgyrchoedd hynny yn ymdrin â nhw a beth yn fras oedd hyd y cytundeb gyda'r cwmni i gynorthwyo'r ymgyrch(oedd)?

Rydym ni wedi ymgysylltu â chwmnïau preifat fel a ganlyn:

(a) ymgysylltwyd â chwmni cysylltiadau cyhoeddus i baratoi gohebiaeth fewnol i adrodd ar brofiadau aelodau'r Bwrdd yn dilyn sefydlu Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2014. Gwaith untro oedd hwn a gwblhawyd rhwng mis Medi 2016 a mis Chwefror 2017 ac nid ydym yn bwriadu ail-dendro ar gyfer gwaith tebyg yn y dyfodol.
(b) ymgysylltwyd â chwmni marchnata i ymgymryd â phrosiect brand cyflogwr, ar gontract blwyddyn o fis Ionawr 2017. Ceir dewis i adnewyddu'r contract hwn am gyfnod o flwyddyn arall.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, cysylltwch â mi yn ddi-oed.

Yn gywir